Estyn

# Beth rydym yn ei arolygu (2024 – 2030): Ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion



## Cynnwys


**Cyflwyniad i 'Beth rydym yn ei arolygu'** ........ 1
**Gwerthuso pob maes arolygu (MA)** ........ 1
**Yr adroddiadau arolygu** ........ 1
**Ynglŷn â'r ysgol neu'r uned cyfeirio disgyblion (UCD)** ........ 2
**Crynodeb** ........ 3
**Argymhellion** ........ 3
**Beth sy'n digwydd nesaf** ........ 3
**Y prif werthusiad** ........ 3
**Gwybodaeth ychwanegol** ........ 4
Bydd yr adran hon yn cynnwys datganiadau am yr eitemau canlynol: ........ 4
**Sail dystiolaeth yr adroddiad** ........ 4
**Meysydd arolygu** ........ 4
1. Addysgu a dysgu ........ 4
2. Lles, gofal, cymorth ac arweiniad ........ 4
3. Arwain a gwella ........ 4
**Fframwaith 2024** ........ 5
1. Addysgu a dysgu ........ 5
2. Lles, gofal, cymorth ac arweiniad ........ 7
3. Arwain a gwella ........ 8

# Cyflwyniad i 'Beth rydym yn ei arolygu'

Mae'r llawlyfr hwn yn nodi'r hyn mae angen i arolygwyr ei ystyried wrth werthuso'r tri maes arolygu mewn ysgolion a gynhelir (ysgolion cynradd, uwchradd, pob oed ac arbennig) ac unedau cyfeirio disgyblion (UCD). Mae'n esbonio 'Beth rydym yn ei arolygu'. Mae'r arweiniad yn ddeunydd darllen hanfodol ar gyfer arolygwyr cofnodol a holl aelodau eraill y tîm arolygu, gan gynnwys yr enwebai. Gallai hefyd fod yn ddefnyddiol ar gyfer darparwyr i gefnogi eu dealltwriaeth o'r arweiniad arolygu. Mae llawlyfr ar wahân sy'n esbonio'r broses a'r fethodoleg arolygu, sef ['Sut rydym yn arolygu'](). 

Mae'r tri maes arolygu wedi'u nodi isod:

MA1: Addysgu a dysgu

MA2: Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

MA3: Arwain a gwella

Ceir mwy o wybodaeth am arolygiadau ar ein gwefan www.estyn.llyw.cymru

# Gwerthuso pob maes arolygu (MA)

Ni fydd timau arolygu'n rhoi graddau cyffredinol ar gyfer pob maes arolygu. Fodd bynnag, byddant yn llunio gwerthusiad cadarn a thrylwyr o ddarpariaeth yr ysgol neu'r UCD a'i heffaith ar ddysgu a lles disgyblion.

Bydd arolygwyr bob amser yn cynnwys gwerthusiadau clir o ran y prif ffocysau ym mhob maes arolygu, fel y dangosir isod. Fodd bynnag, gallai'r hyn y mae arolygwyr yn adrodd arno o fewn pob maes arolygu fod yn wahanol yn dibynnu ar y cyd-destun ac arwyddocâd cymharol yr hyn y maent yn ei weld ym mhob ysgol neu UCD. Gallai arolygwyr adrodd 'trwy eithriad'. Mae hyn yn golygu y gallent adrodd ar rai agweddau dim ond lle mae yna gryfderau neu wendidau penodol.

Pan fydd arolygwyr yn nodi unrhyw arfer ddiddorol neu arloesol sy'n werth ei rhannu'n ehangach, byddant yn cynnwys 'ciplun' o fewn yr adroddiad (paragraff byr). Byddwn yn arddangos amrywiaeth o'r cipluniau hyn ar ein gwefan. Pan fydd arolygwyr yn nodi diffygion difrifol mewn un maes arolygu neu fwy, bydd angen lefel statudol o weithgarwch dilynol ar yr ysgol neu'r UCD fel arfer (gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig). Ceir mwy o arweiniad am weithgarwch dilynol yn 'Sut rydym yn arolygu'.

# Yr adroddiadau arolygu

Yn dilyn arolygiad, bydd pob darparwr yn cael adroddiad. Hefyd, bydd yn cael fersiwn o'r adroddiad i rieni a gofalwyr. Cyhoeddir yr adroddiadau ar wefan Estyn. Bydd

dyddiadau cyhoeddi i'w gweld ar y wefan. Mae'r canlynol yn amlinellu beth sy'n cael ei gynnwys ym mhob un o adrannau'r adroddiad.

# Ynglŷn â'r ysgol neu'r uned cyfeirio disgyblion (UCD)

Yn ein hadroddiadau ar gyfer ysgolion, bydd yr adran hon o'r adroddiad yn gryno ac yn cynnwys gwybodaeth gefndir ffeithiol am yr ysgol yn unig. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei phoblogi ymlaen llaw o'r ffurflen Cyfrifiad ysgol blynyddol ar lefel disgyblion (CYBLD) ddiweddaraf ac ni fydd yn cynnwys unrhyw werthusiad o'r ddarpariaeth. Bydd yr arolygydd cofnodol yn rhannu cynnwys yr adran hon gyda'r ysgol er gwybodaeth yn unig. Er mwyn cysondeb, ni ellir newid y wybodaeth hon o'r wybodaeth a dderbynnir gan y CYBLD.

Yn ein hadroddiadau ar gyfer UCDau, bydd yr adran hon o'r adroddiad yn gryno ac yn cynnwys gwybodaeth gefndir ffeithiol yn unig am yr UCD. Yn ystod yr arolygiad, bydd yr arolygydd cofnodol yn rhannu cynnwys yr adroddiad hwn gyda'r UCD.

Bydd yr adran hon yn cynnwys gwybodaeth fras am y canlynol:

- maint, natur a lleoliad yr ysgol neu'r UCD
- cefndir ac amgylchiadau'r disgyblion, fel y gyfran sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- cefndir ieithyddol y disgyblion a chategori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg
- categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg
- unrhyw newidiadau pwysig ers yr arolygiad diwethaf
- unrhyw ffactorau perthnasol eraill, fel cyfran y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol neu'r graddau y mae disgyblion yn gadael neu'n ymuno â'r darparwr yn ystod y flwyddyn academaidd
- dyddiad penodi'r pennaeth
- mis / blwyddyn arolygiad blaenorol yr ysgol neu UCD

Os yw'n briodol, dylai'r cyd-destun gynnwys y frawddeg: 'Mae'r ysgol yn ysgol arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon.' Pan fydd cymeriad crefyddol i'r ysgol, dylai'r arolygydd cofnodol gynnwys y datganiad canlynol, hefyd: 'Nid yw Estyn yn arolygu addysg grefyddol enwadol na chynnwys crefyddol addoli ar y cyd pan fydd yn ysgol ag iddi gymeriad crefyddol. Yn hytrach, mae'n ofynnol i'r corff llywodraethol yn ôl y gyfraith drefnu bod addysg grefyddol enwadol ac addoli ar y cyd yn cael eu harolygu ar wahân.'

Bydd yr adran cyd-destun hefyd yn cynnwys dolen at [https://www.llyw.cymru/fy-ysgol-leol-canllaw](https://www.llyw.cymru/fy-ysgol-leol-canllaw), sef gwefan gyda gwybodaeth am ysgolion i rieni / gofalwyr a phobl eraill sydd â diddordeb yn eu hysgol leol.

# Crynodeb

Bydd crynodeb o adroddiad arolygu yn crynhoi prif bwyntiau'r adroddiad arolygu. Bydd y crynodeb yn cynnwys y prif gryfderau, y prif feysydd i'w gwella a'r argymhellion.

# Argymhellion

Bydd yr argymhellion yn dod yn uniongyrchol o gynnwys yr adroddiad, yn nodi'r hyn sydd angen ei wella ac yn cael eu hysgrifennu yn nhrefn eu blaenoriaeth.

# Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr adran 'Beth sy'n digwydd nesaf' yn nodi'r hyn mae angen i'r darparwr ei wneud ar ôl yr arolygiad. Ym mhob achos, bydd angen i arweinwyr ymateb i'r argymhellion trwy roi'r camau gweithredu sydd eu hangen ar waith i wneud y gwelliannau a nodwyd gan y tîm arolygu.

Dylai nodi unrhyw gipluniau o arfer ddiddorol neu arloesol rydym wedi'u cynnwys yn yr adroddiad neu nodi ble rydyn ni wedi gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos.

Bydd yr adran hon yn esbonio a oes angen gweithgarwch statudol (mesurau arbennig neu welliant sylweddol) ar y ddarpariaeth. Bydd y rhesymau am lefel y gweithgarwch dilynol yn glir ym mhrif gorff yr adroddiad.

# Y prif werthusiad

Bydd y prif werthusiad yn adrodd ar:

(a) ansawdd yr addysg a ddarperir yn yr ysgol neu UCD
(b) i ba raddau y mae'r addysg a ddarperir yn yr ysgol neu UCD yn bodloni anghenion ystod y disgyblion yn yr ysgol neu UCD
(c) y safonau addysgol a gyflawnir yn yr ysgol neu UCD
(ch) ansawdd yr arweinyddiaeth yn yr ysgol neu UCD a'r rheolaeth arni, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r ysgol neu UCD yn cael eu rheoli'n effeithiol
(d) datblygiad y disgyblion yn yr ysgol neu UCD (ac eithrio'r disgyblion sydd dros oed ysgol gorfodol) trwy gyfeirio at bedwar diben y cwricwlwm ar gyfer y disgyblion hynny
(dd) datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn yr ysgol neu UCD
(e) cyfraniad yr ysgol neu UCD at les y disgyblion hynny

Bydd cipluniau o arfer ddiddorol neu arloesol yn cael eu cynnwys yn yr adran hon, hefyd. Bydd yn cynnwys pennawd byr sy'n dal thema'r ciplun, ac wedyn y naratif. Bydd y pennawd a'r naratif yn cael eu cynnwys mewn blwch ar wahân. Yn ogystal,

efallai y byddwn yn gwahodd yr ysgol neu'r UCD i gyfrannu astudiaeth achos fanylach, pan fydd hynny'n briodol.

# Gwybodaeth ychwanegol

Bydd yr adran hon yn cynnwys datganiadau am yr eitemau canlynol:

- trefniadau diogelu
- bwyta ac yfed yn iach
- cyllid ysgol
- materion iechyd a diogelwch (diogelwch y safle)

# Sail dystiolaeth yr adroddiad

Mae arolygwyr yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth i wneud yn siŵr bod eu canfyddiadau yn ddilys, yn gywir ac yn ddibynadwy. Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn esbonio'r ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd ganddynt ynghyd ag ystod y gweithgareddau a gyflawnwyd ganddynt yn ystod eu hymweliad.

# Meysydd arolygu

Mae'r adran ganlynol yn esbonio'r hyn y mae pob maes arolygu'n ei gwmpasu a'r hyn mae angen i arolygwyr ei gadw mewn cof wrth werthuso pob un. Mae'r meysydd arolygu wedi'u rhifo 1 – 3, ond maent i gyd yr un mor bwysig â'i gilydd.

Bydd yr adroddiad arolygu'n cwmpasu pob un o'r meysydd arolygu. Fe fydd bob amser yn adrodd ar bob un o'r prif ffocysau, ond nid yn nhrefn y llawlyfr hwn, o reidrwydd. Dyma'r prif ffocysau ar gyfer pob maes arolygu:

## 1. Addysgu a dysgu

### Ffocws

Pa mor effeithiol y mae cwricwlwm yr ysgol / UCD, addysgu ac asesu yn cynorthwyo'r holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai mewn perygl o ddeilliannau andwyol, er enghraifft y disgyblion hynny y mae tlodi yn cael effaith arnynt, y rhai ag ADY neu

## 2. Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

### Ffocws

Pa mor effeithiol y mae'r ysgol / UCD yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai mewn perygl o ddeilliannau andwyol, er enghraifft y disgyblion hynny y mae tlodi yn cael effaith arnynt, y rhai ag ADY neu rwystrau

## 3. Arwain a gwella

### Ffocws

Pa mor effeithiol y mae arweinwyr:

- yn sicrhau bod pob disgybl yn dysgu'n effeithiol ac yn gwneud cynnydd? (Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd mewn perygl o ganlyniadau andwyol, er

| | | |
|---|---|---|
| rwystrau eraill a nodwyd rhag gwneud cynnydd, i:<br><br>• ddysgu a gwneud cynnydd?<br>• datblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth?<br>• datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu?<br>• datblygu eu medrau Cymraeg? | eraill a nodwyd rhag gwneud cynnydd:<br><br>• yn ddiogel a saff?<br>• yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd?<br>• yn cael eu parchu a'u trin yn deg?<br>• yn datblygu medrau arwain ac yn ymgymryd â chyfrifoldeb?<br>• yn cael yr arweiniad a'r cymorth sy'n angenrheidiol ar gyfer y camau nesaf yn eu datblygiad? | enghraifft y disgyblion hynny y mae tlodi'n effeithio arnynt, y rhai ag ADY neu rwystrau eraill a nodwyd rhag dysgu.)<br>• yn datblygu diwylliant, ethos cynhwysol a chyfeiriad strategol sy'n cefnogi cynnydd a lles pob un o'r disgyblion?<br>• yn nodi ac yn mynd i'r afael â meysydd i'w gwella, gan gynnwys mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol?<br>• yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys gwella ansawdd addysgu a datblygu'r Gymraeg?<br>• yn sicrhau bod dysgu proffesiynol yn gwella ansawdd addysgu, yn cefnogi gwelliant ysgol ac yn arfogi pob aelod o staff i gyflawni eu rolau?<br>• yn rheoli adnoddau'r ysgol / UCD? |

Bydd y tîm arolygu'n ystyried pob maes arolygu. Mae'n bosibl na fydd yr adroddiad yn adrodd ar bob un ar wahân, nac yn dilyn y drefn uchod, o reidrwydd. Byddant yn creu cysylltiadau rhwng y meysydd i adrodd stori unigryw'r darparwr a'i gyd-destun.

Mae cyfres o ddogfennau arweiniad atodol ar gael ar ein gwefan. Mae'r rhain yn rhoi mwy o wybodaeth am ein hymagweddau at arolygu agweddau penodol ar y fframwaith hwn.

# Fframwaith 2024

Ar draws y fframwaith arolygu, bydd arolygwyr yn ystyried y meysydd ffocws o ran yr effaith a gânt ar ddysgu a lles yr holl ddisgyblion.

## 1. Addysgu a dysgu

**Ffocws**

Pa mor effeithiol y mae cwricwlwm yr ysgol, addysgu ac asesu yn cynorthwyo pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai mewn perygl o ddeilliannau andwyol, er enghraifft y disgyblion hynny y mae tlodi yn cael effaith arnynt, y rhai ag ADY neu rwystrau eraill a nodwyd rhag gwneud cynnydd, i:

- ddysgu a gwneud cynnydd

- datblygu eu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth
- datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu
- datblygu eu medrau Cymraeg

**Wrth ystyried unrhyw rai o'r agweddau isod, dylai arolygwyr werthuso'r gwahaniaeth a wnânt i ddysgu'r disgyblion a pha mor dda y mae athrawon ac ymarferwyr eraill:**

- yn sicrhau bod eu **haddysgu**:
  - yn symud dysgu yn ei flaen ar y cyflymdra cywir, ac yn cyflwyno'r lefel briodol o her a chymorth i bob un o'r disgyblion, gan gynnwys y disgyblion hynny ag ADY a disgyblion y mae tlodi ac anfantais yn cael effaith andwyol arnynt
  - yn dangos disgwyliadau uchel o'r holl ddisgyblion
  - yn defnyddio holi ac adborth i gefnogi cynnydd disgyblion
  - yn ymateb i ddysgu disgyblion yn ystod gwersi a thros gyfnod, ac yn addasu yn unol â hynny
  - yn helpu disgyblion i ddeall eu cryfderau eu hunain a'u meysydd i'w gwella, a datblygu i fod yn ddysgwyr effeithiol
  - yn gwneud yr amgylchedd dysgu yn ysgogol a difyr
  - yn gweddu'n dda i  i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac wedi'i seilio ar ddealltwriaeth gadarn o'u hanghenion
  - yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol ac ar y cyd
  - yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, a sut, lle bo'n briodol
  - yn defnyddio staff ychwanegol i gefnogi dysgu disgyblion, lle bo'n briodol
- yn deall beth maent eisiau i ddisgyblion ei ddysgu a pham trwy **gyflwyno cwricwlwm** sydd:
  - yn darparu ehangder a dyfnder addas o ddysgu ar gyfer disgyblion ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad
  - yn datblygu dealltwriaeth o hanes, treftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol, amrywiaeth ethnig, hunaniaethau, profiadau a safbwyntiau eu hardal leol, Cymru, a'r byd ehangach
  - yn ysbrydoli disgyblion ac yn codi eu dyheadau
  - yn galluogi disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o natur gymhleth cymdeithasau trwy ddod i gysylltiad â hanesion ddoe a heddiw eu hardal leol, Cymru a'r byd ehangach, gan gwmpasu cymunedau gwahanol yn ogystal â storïau pobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn benodol
  - yn cefnogi datblygiad creadigol ac artistig disgyblion
  - yn cefnogi ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion
  - yn meithrin agweddau cadarnhaol a pharchus tuag at amrywiaeth (Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb)
  - yn datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o wahanol hunaniaethau, safbwyntiau a gwerthoedd, amrywiaeth perthnasoedd, rhywioldeb gan gynnwys bywyd pobl LHDTC+ ac yn archwilio themâu

    tegwch, hawliau ac eiriolaeth rhywedd (Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb)
    - yn cefnogi datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion, gan gynnwys eu dealltwriaeth o nodweddion perthnasoedd iach (Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb)
    - yn helpu disgyblion i ddatblygu'r medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i wneud dewisiadau iach am ffordd o fyw a deall effaith y dewisiadau hyn
- **yn datblygu medrau disgyblion** yn systematig ac yn raddol yn ystod gweithgareddau dysgu a thros gyfnod fel eu bod:
    - yn caffael y medrau angenrheidiol mewn gwrando, siarad, darllen, ysgrifennu a rhifedd, a hefyd y medrau digidol i gefnogi eu gwaith a gwneud cynnydd
    - yn cymhwyso'u medrau ar lefel briodol ar draws y cwricwlwm
    - yn meddu ar y medrau corfforol, cymdeithasol ac emosiynol i'w paratoi ar gyfer bywyd yn ddiweddarach
    - yn datblygu medrau cyfathrebu Cymraeg o'u gwahanol fannau cychwyn mewn gweithgareddau addysgu ffurfiol a sefyllfaoedd anffurfiol
- yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu **agweddau** cadarnhaol **tuag at ddysgu**, fel eu bod:
    - yn ymddwyn yn dda ac yn cymryd rhan yn gadarnhaol mewn gweithgareddau dysgu
    - yn dyfalbarhau neu'n chwilio am atebion newydd pan fyddant yn wynebu anawsterau
    - yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol gydag oedolion a'u cyfoedion
    - yn ymateb yn gadarnhaol ac yn bwrpasol i adborth

## 2. Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

### Ffocws

Pa mor effeithiol yw'r gofal, y cymorth a'r arweiniad a ddarperir gan yr ysgol/UCD i sicrhau bod pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai mewn perygl o ddeilliannau andwyol, er enghraifft y disgyblion hynny y mae tlodi yn cael effaith arnynt, y rhai ag ADY neu rwystrau eraill a nodwyd rhag gwneud cynnydd:

- yn ddiogel a saff
- yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd
- yn cael eu parchu a'u trin yn deg
- yn datblygu medrau arwain ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau
- yn cael yr arweiniad a'r cymorth sy'n angenrheidiol ar gyfer y camau nesaf yn eu datblygiad

**Wrth ystyried unrhyw rai o'r agweddau isod, dylai arolygwyr werthuso'r gwahaniaeth a wnânt i ddysgu'r disgyblion a pha mor dda y mae athrawon ac ymarferwyr eraill:**

- yn creu a chynnal **diwylliant o ddiogelu** gan gynnwys dilyn gweithdrefnau amddiffyn plant fel bod disgyblion:
    - yn ddiogel a saff
    - yn cael eu parchu a'u trin yn deg
    - yn rhydd rhag bwlio ac aflonyddu
    - yn rhydd rhag cam-drin corfforol, emosiynol a geiriol
- yn sicrhau bod disgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, er enghraifft trwy:
    - hyrwyddo a monitro presenoldeb, gan gynnwys presenoldeb grwpiau penodol
    - herio absenoliaeth barhaus
    - gweithio mewn partneriaeth, er enghraifft â gwasanaethau lles addysg, gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu ac asiantaethau eraill
- yn cydlynu cymorth addas ar gyfer disgyblion ag **anghenion dysgu ychwanegol**, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol, pan fo'n briodol
- yn cefnogi ymddygiad cadarnhaol, ac yn cofnodi, yn adrodd ac yn ymateb yn gywir i bob math o fwlio ac aflonyddu
- yn sicrhau bod disgyblion sydd â hanes o gael eu gwahardd a'r rhai sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn dangos ymddygiad gwell ac agweddau gwell at ddysgu
- yn annog disgyblion i ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol, yn datblygu medrau arwain ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau
- yn rhoi cyngor effeithiol a diduedd i ddisgyblion yn ymwneud â'r **camau nesaf yn eu datblygiad**, er enghraifft o ran:
    - cyfleoedd, cyfrifoldebau, a phrofiadau bywyd oedolyn
    - eu cyfnod pontio i'r cam dysgu nesaf

## 3. Arwain a gwella

### Ffocws

Pa mor effeithiol y mae arweinwyr:

- yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai mewn perygl o ddeilliannau andwyol, er enghraifft y disgyblion hynny y mae tlodi yn cael effaith arnynt, y rhai ag ADY neu rwystrau eraill a nodwyd rhag gwneud cynnydd, yn dysgu'n effeithiol ac yn gwneud cynnydd
- yn datblygu diwylliant, ethos cynhwysol a chyfeiriad strategol sy'n cefnogi cynnydd a lles pob un o'r disgyblion
- yn nodi ac yn mynd i'r afael â meysydd i'w gwella, gan gynnwys mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol
- yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys gwella ansawdd addysgu a datblygu'r Gymraeg
- yn sicrhau bod dysgu proffesiynol yn gwella ansawdd addysgu, yn cefnogi gwelliant ysgol ac yn arfogi pob aelod o staff i gyflawni eu rolau
- yn rheoli adnoddau'r ysgol / UCD

**Wrth ystyried unrhyw rai o'r agweddau isod, dylai arolygwyr werthuso'r gwahaniaeth a wnânt i ddysgu'r disgyblion a pha mor dda y mae athrawon ac ymarferwyr eraill:**

- yn datblygu diwylliant, ethos cynhwysol a chyfeiriad strategol sy'n canolbwyntio'n briodol ar wella dysgu a lles disgyblion
- yn gosod a chyfleu **disgwyliadau uchel** ar gyfer staff, disgyblion a nhw eu hunain
- yn gwerthuso cryfderau'r ysgol / UCD a'r meysydd sydd angen eu gwella, **ac yn ysgogi gwelliant**
- yn meddu ar hanes sefydledig o wneud gwelliannau, a'u cynnal, a'r graddau y maent wedi arwain at effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion
- yn cynllunio ac yn cyflwyno **cyfleoedd dysgu proffesiynol** ar gyfer staff sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion
- yn rheoli **perfformiad** staff i wella'u harfer a mynd i'r afael â thanberfformio, lle bo angen
- yn hyrwyddo'r **Gymraeg**, ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol eraill (er enghraifft gwella addysgu, tegwch, diwygio ADY, Cwricwlwm i Gymru)
- yn darparu **llywodraethu** effeithiol sy'n cynnig cymorth a her
- yn dosbarthu **rolau a chyfrifoldebau** i ddiwallu anghenion disgyblion ac ysgogi gwelliant yn narpariaeth yr ysgol / UCD
- yn ystyried baich gwaith a lles staff ac i ba raddau y mae effaith unrhyw ofynion newydd neu ddiwygiedig ar faich gwaith eu staff eu hunain ac ar benaethiaid, arweinwyr a staff mewn lleoliadau addysg eraill
- yn datblygu perthnasoedd cynhyrchiol â rhieni, ysgolion partner/UCDau, cyrff allanol a'r gymuned ehangach
- yn defnyddio **adnoddau'r ysgol/UCD** i sicrhau addysgu a dysgu o ansawdd uchel a chymorth ar gyfer lles disgyblion
- yn defnyddio cyllid grant i wella deilliannau ar gyfer **disgyblion wedi'u targedu**